Aelodau Cyfetholedig o'r Bwrdd

Rôl wirfoddol gyda threuliau rhesymol

Hoffech chi fod yn rhan o sefydliad bywiog a llwyddiannus? I deimlo'n rhan o dîm sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau a chymunedau Merthyr Tudful?

Y Sefydliad

Yma yng Nghymdeithas Tai Merthyr Tudful, rydym y angerddol dros ddarparu cartrefi o ansawdd da sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn arbennig ar gyfer pobl sy'n byw o fewn bwrdeistref Merthyr Tudful. Rydym yn Gymdeithas Dai seiliedig yn y gymuned, sy'n darparu gwasanaethau eithriadol i'n holl gwsmeriaid.

Rydym yn Gymdeithas Dai fach, sy'n rheoli bron i 1250 uned ar hyn o bryd, gyda throsiant o £6m a 49 aelod o staff. Fodd bynnag, rydym yn cyflawni llawer mwy na'r disgwyl, yn enwedig gyda'n rhaglen ddatblygu barhaus a fydd yn parhau i dyfu dros y blynyddoedd nesaf.

Y cyfle

Mae Tai Merthyr yn ceisio recriwtio hyd at 3 aelod cyfetholedig o'r Bwrdd i ymuno â'n Bwrdd Rheoli presennol.

Rydym yn chwilio am unigolion llawn cymhelliant sy'n gallu dangos empathi gyda thenantiaid a'r gymuned ym Merthyr a'r cyffiniau. Mae eich cefndir, boed hynny'n gyhoeddus neu'n breifat, yn llai pwysig i ni na'ch gwerthfawrogiad o'r ardal lle'r ydym ni'n gweithredu, sef Merthyr Tudful, yn ogystal â dealltwriaeth o'r materion a'r heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach yr ydym ni'n eu hwynebu fel Cymdeithas dai.
Rydym yn agored i gynnal sgyrsiau gydag aelodau bwrdd profiadol, NEU gallai hwn fod yn gais cyntaf ar gyfer y Bwrdd. Rydym yn chwilio am unigolion gydag arbenigedd mewn maes penodol i gynnig budd i'r busnes ac i sicrhau bwrdd cytbwys ac amrywiol, yn yr achos hwn:

- Llywodraethu
- Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata
- Rheoli asedau
- Profiad personol o dai cymdeithasol
- Adnoddau Dynol
- Iechyd a Diogelwch
- Datblygu Cymunedol
- Dealltwriaeth o fwrdeistref Merthyr Tudful

Byddwch yn cefnogi'r gymdeithas dai yn ein gweledigaeth i arwain y Gymdeithas yn ei blaen, gyda'n prif flaenoriaethau:

- Profiad Tenantiaid
- Twf
- Pobl a Diwylliant
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'n rhaid i chi ddeall yr hyn mae'n ei olygu i fod yn aelod o fwrdd sefydliad ymroddedig sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a bod yn aelod o dîm sy'n gweithredu'n unol â'r safonau uchaf o fewn diwylliant agored.

Fel rhan o'r rôl hon byddai'n ofynnol i chi fynychu'r cyfarfodydd Bwrdd (8 bob blwyddyn). Cynhelir y rhain bob chwe wythnos, fel arfer wyneb yn wyneb. Byddwn yn darparu iPad er mwyn eich galluogi i ymuno â'r cyfarfodydd. Byddwn hefyd yn gofyn i chi fynychu diwrnodau i ffwrdd, ynghyd â sesiynau cyflwyno a hyfforddi yn ôl yr angen. Ar gyfartaledd, byddai gofyn i chi ymrwymo i roi 7 awr o'ch amser bob mis i'r Gymdeithas.

Yr ymgeisydd

Os ydych chi wedi bod yn aelod o fwrdd o'r blaen, byddwch yn deall gwerth bod yn aelod o fwrdd. Os ydych chi'n ystyried ymgeisio am y tro cyntaf, bydd bod yn aelod o fwrdd yn rhoi profiad personol i chi o reoli risg, gosod gweledigaeth strategol a chyd-drafod. Byddwch yn gallu datblygu eich sgiliau arweinyddiaeth eich hun drwy ddysgu gan eraill, sefydlu a thyfu eich rhwydweithiau a dysgu sut mae busnesau eraill yn gweithredu.

Rydym yn cydnabod gwerth amrywiaeth i'n sefydliad, ac rydym yn cynnal adolygiad o amrywiaeth ein staff i nodi meysydd sy'n cael eu tangynrychioli. Rydym ni felly'n dymuno annog a chroesawu ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir Du, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig a chenedlaetholdeb amrywiol yn benodol. Bydd o leiaf dau ymgeisydd o'r cefndiroedd hyn, sydd hefyd yn bodloni'r meini prawf gorfodol, yn sicr o dderbyn cyfweliad yng Ngham 1. Rydym yn adnabod ymgeiswyr o'r grwpiau hyn drwy ofyn i bob ymgeisydd gwblhau a chyflwyno ffurflen monitro cydraddoldeb gyda'u ceisiadau. Os bydd ymgeiswyr yn gwrthod cyflwyno ffurflen monitro cydraddoldeb, bydd y cais yn cael ei asesu a'i roi ar restr fer yn unol â'r meini prawf gorfodol ochr yn ochr â phawb arall, ac mae'n bosibl na fydd yn cael ei ddewis i gael cyfweliad.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, ewch i'n gwefan **www.mtha.org.uk** i gael pecyn ymgeisio ynghyd â disgrifiad llawn o'r

swydd, ffurflen gais a ffurflen monitro cydraddoldeb. Mae ein gwefan hefyd yn cynnwys manylion pellach ynglŷn â'n hymagwedd tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth recriwtio.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch â Karen Courts ar 07867 359443

Dylid e-bostio pob ffurflen gais, ynghyd â ffurflen monitro cydraddoldeb wedi'i chwblhau a llythyr eglurhaol at **jayne.lewis@mtha.org.uk**